DAVIES, FRANCIS (1605 - 1675), esgob Llandaf

Enw: Francis Davies
Dyddiad geni: 1605
Dyddiad marw: 1675
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob Llandaf
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Lawrence Thomas

Cafodd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, lle y graddiodd yn B.A. (1625) a M.A. (1628); cymerth radd B.D. yn 1640. Daeth yn rheithor Pentyrch a Radyr, 1630, rheithor Llan-gan (gyda Llantrithyd, fe ymddengys), 1638, ac yn ganon S. Andrews yn eglwys gadeiriol Llandaf, 1638. Collodd fywiolaethau Llan-gan a Phentyrch yn ystod y Werin-Lywodraeth am iddo wrthod darllen y *Directory*, eithr cafodd driniaeth dyner oblegid ei ysgolheictod, ei rinweddau, a ffafr y Colonel Jones, Ffonmon. Caniatawyd iddo 'bedwaredd' gyfran Llan-gan; rhoddwyd les y fywoliaeth honno i'w frawd Maurice. Yn ddiweddarach peidiwyd â thalu'r 'bedwaredd' a gorfu i Davies ei gynnal ei hun trwy gadw ysgol breifat; wedi hynny aeth yn gaplan yng nghartref iarlles Peterborough. Yn 1660 dychwelodd i fywoliaeth Llan-gan ac apeliodd am ddegymau Llantrithyd. Gwnaeth gais hefyd am archddiaconiaeth Llandaf oherwydd iddo golli ei fywiolaethau ac yn herwydd ei ffyddlondeb i achos y brenin; cymeradwyodd Sheldon, archesgob Caergaint, y cais, a gwnaethpwyd Davies yn archddiacon. Cafodd radd D.D. yn 1661. Fe'i cysegrwyd yn esgob Llandaf, 24 Awst 1667, a bu'n byw ac yn cynnal ei lysoedd eglwysig ym maenor esgobaidd Mathern. Ailsefydlodd y llyfrgell yn yr eglwys gadeiriol (fe'i distrywiasid yn ystod y Werin-Lywodraeth); efe hefyd a osododd y gloch fwyaf yn nhŵr yr eglwys gadeiriol. Bu farw 14 Mawrth 1675, a chladdwyd ef o flaen yr allor yn Llandaf; daeth ei garreg fedd i'r golwg ar ôl y cyrch bomio o'r awyr yn 1941.

Awdur

Yr Archddiacon Lawrence Thomas, (1889 - 1960)

Ffynonellau

Acts of the Bishops of Llandaff (1908â€“12)

Athenae Oxonienses (1813â€“20)

Browne Willis, *A survey of the Cathedral Church of Llandaff* (1719)

J. Walker, *An attempt towards recovering an account of the numbers and sufferings of the clergy of the Church of England, heads of colleges, fellows, scholars, etc., who were sequester'd, harrass'd, etc. in the late times of the Grand Rebellion occasion'd by the ninth chapter (now the second volume) of Dr. Calamy's Abridgment of the life of Mr. Baxter. Together with an examination of that chapter*

Calendar of State Papers, Domestic Series

T. Richards, (a) *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), (b) *Religious Developments in Wales, 1654â€“1662* (1923) ..., (c) *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q14945644

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Thomas, L., (1953). DAVIES, FRANCIS (1605 - 1675), esgob Llandaf. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-FRA-1605

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government